



Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010

2010 mccc 3

Nodiadau Esboniadol

Red Meat Industry (Wales) Measure 2010

2010 nawm 3

Explanatory Notes

£5.75

MESUR DIWYDIANT CIG COCH (CYMRU) 2010

NODIADAU ESBONIADOL

RHAGARWEINIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 a gafodd ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Mawrth 2010 a'i gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 11 Mai 2010. Cawsant eu paratoi gan Adran Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynorthwyo darlennydd y Mesur. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur ond nid dynt yn rhan ohono.

SYLWEBAETH AR ADRANNAU

Adran 1 – Ystyr “y diwydiant cig coch”

2. Mae'r adran hon yn diffinio yr hyn a olygir wrth y term ‘y diwydiant cig coch’ fel mae'n gymwys yn y cyd-destun hwn, hynny yw, bridio, cadw, prosesu, marchnata a dosbarthu gwartheg, defaid, a moch(rhai byw a marw fel ei gilydd) ac unrhyw gynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hynny i unrhyw raddau helaeth.
3. Mae rhai gweithgareddau nas cwmpesir gan y Mesur hwn oherwydd fod yna drefniadau ar wahân i gefnogi a datblygu'r cynhyrchion hynny megis llaeth a chynhyrchion llaeth a gwlan cnu sydd dan gyfrifoldeb Dairy UK a'r Bwrdd Marchnata Gwlan yn eu trefn. Ni chwmpesir crwyn gan nad ystyriwyd erioed eu bod yn rhan o'r diwydiant cig coch ond mai un elfen yn y fasnach gelanedd-dai ydynt sydd heb fod yn ddarostyngedig i ardoll.
4. Mae'r Mesur yn darparu bod amrediad cymhwysiad y pwerau sydd ar gael o dan y Mesur i'w cymhwyso mewn ffordd wahanol i'r tri sector allweddol.

Adran 2 – Amcanion

5. Amcanion y Mesur yw;
 - Cynyddu effeithiolrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant cig coch
 - Gwella marchnata yn y diwydiant
 - Gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu neu y gallai eu darparu i'r gymuned
 - Gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy

RED MEAT INDUSTRY (WALES) MEASURE 2010

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Red Meat (Wales) Measure 2010 which was passed by the National Assembly for Wales on 10 March 2010 and approved by Her Majesty in Council on 11 May 2010. They have been prepared by the Department for Sustainable Futures of the Welsh Assembly Government to assist the reader of the proposed Measure. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Measure but are not part of it.

COMMENTARY ON SECTIONS

Section 1 – Meaning of the “red meat industry”

2. This section defines what is meant by the term ‘red meat industry’ as it applies in this context, that is, breeding, keeping, processing, marketing and distribution of cattle, sheep and pigs (both alive and dead) and any products substantially derived from such animals.
3. Some activities are not covered by this Measure because there are separate arrangements for the support and development of those products such as milk and milk products and fleece wool which are under the responsibility of Dairy UK and the Wool Marketing Board respectively. Hides are not covered as these have never considered to be part of the red meat industry but to be one element of the knackery trade which is not subject to levy.
4. The Measure provides that the scope of the application of the powers available under the Measure are to be applied differently to the three key sectors.

Section 2 – Objectives

5. The objectives of the Measure are ;
 - To increase efficiency or productivity in the red meat industry
 - To improve marketing in the industry
 - To improve or develop services that the industry provides or could provide to the community
 - To improve ways in which the industry contributes to sustainable development

6. Yr un yw'r amcanion hyn ag amcanion cyfredol Bwrdd Ardollau Cymru ac maent hefyd yn adlewyrchu'r amcanion a osodir yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ("Deddf ANChG"), sef y brif fframwaith gyfreithiol ddiffiniadol ar gyfer hybu a datblygu prif sectorau amaethyddol y Deyrnas Unedig.

Adran 3 – Swyddogaethau

7. Swyddogaethau'r Mesur yw darparu'r moddau a'r dulliau sy'n rhoi i Weinidogion Cymru'r pŵer i allu diwygio manylion y Mesur drwy allu newid y geiriad, a thrwy ychwanegu disgrifiadau newydd neu ddileu disgrifiadau presennol o'r gweithgareddau y gellir eu gwneud er mwyn datblygu a hybu'r diwydiant cig coch. Rhoddir yr eglurhad manwl yn Atodlen 1.
8. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i greu cronfa wrth gefn os oes angen gwneud hynny at ddibenion cynorthwyo ariannu'r gweithgareddau hyn.

Adran 4 – Gosod ardoll: dynodi personau sy'n atebol

9. Y prif ddull o roi cefnogaeth ariannol i'r diwydiant cig coch yw drwy godi cronfeydd yn fewnol oddi wrth y diwydiant hwnnw y gellir wedyn eu gwario ar ddatblygu a hybu'r amrywiol weithgareddau a osodir yn Atodlen 1.
10. Mae'r Mesur yn gosod rhai paramedrau sylfaenol mewn perthynas â'r ardoll.
11. Mae'n rhaid gwario'r arian a godir ym mhob sector (gwartheg, defaid a moch) er budd y sector hwnnw ac felly caiff y sector ei hybu yn gymesur â'i bwysigrwydd i'r diwydiant amaeth yng Nghymru.
12. Dim ond ar hybu a datblygu'r tri sector hwn yn y diwydiant cig coch y ceir gwario'r arian a godir, ni cheir ei wario, er enghraifft, ar hybu cynnyrch amaethyddol cyffredinol o Gymru na'i wario ychwaith ar ymchwil a datblygu'n gyffredinol.
13. Mae'r Mesur yn darparu hyblygrwydd fel y byddai modd ei gwneud yn ofynnol i bawb drwy'r gadwyn gyflenwi yn ei chyfanrwydd, o'r amaethwr sy'n cadw'r stoc ac yn bridio a meithrin yr anifeiliaid i'r cigydd sy'n gwerthu cig a chynhyrchion eraill i'r cwsmer terfynol, dalu'r ardoll. Fe allai gweithredwyr lladd-dai, allforwyr, marchnadoedd ocsynau da byw a chwmnïau sy'n ymwneud â phob ffurf ar brosesu pellach ddod yn rhai cymwys i godi ffi ardoll arnynt.
14. Mae'r Mesur yn gosod pedwar categori o berson a allai fod yn gymwys i godi ffi ardoll arno, sef
 - Person sy'n cyflawni gweithgaredd cynradd dynodedig
 - Person sy'n cyflawni gweithgaredd eilradd dynodedig
 - Cigyddwyr
 - Allforwyr
15. Caiff y termau gweithgaredd cynradd a gweithgaredd eilradd eu diffinio yn yr adran hon ym mharagraff 6.

6. These objectives are the same as those of the current Welsh Levy Board and also mirror the objectives set out in the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 (“the NERC Act”) which is the main defining legal framework for the promotion and development of the major agricultural sectors in the United Kingdom.

Section 3 – Functions

7. The functions of the Measure are to provide the means and mechanisms by which Welsh Ministers have the power to be able to amend the detail of the Measure by being able to change the wording, add new descriptions or delete existing descriptions of the activities that can be undertaken to develop and promote the red meat industry. The detailed explanation is given in Schedule 1.
8. Welsh Ministers also have the power to create a reserve fund if necessary for the purposes of assisting with financing of these activities.

Section 4 – Imposing a levy : designation of persons liable

9. The principal mechanism by which the red meat industry is supported financially is by the raising of funds from within that industry which can then be spent in the development and promotion of the various activities set out in Schedule 1.
10. The Measure sets some basic parameters in respect of the levy.
11. Money raised in each sector (cattle, sheep and pigs) must be spent for the benefit of that sector and so the promotion of the sector will be proportionate to its importance to the agriculture industry in Wales.
12. The money raised can only be spent on the development and promotion of these three sectors in the red meat industry, for example, it cannot be spent on the promotion of general agricultural produce from Wales nor could it be spent on general research and development.
13. The Measure provides flexibility so that the levy could be required to be paid by everyone in the whole supply chain from the farmer who keeps the stock and breeds and rears the animals through to the butcher who sells meat and other products to the final consumer. Slaughterhouse operators, exporters, livestock auction markets and companies involved all forms of further processing may become eligible to have a levy fee charged on them.
14. The Measure sets out four categories of persons who may be eligible to have a levy fee charged on them, that is;
 - Those engaged in designated primary activity
 - Those engaged in designated secondary activity
 - Slaughterers
 - Exporters

16. Gwneir y diffiniadau hyn mewn termau sy'n fwy eang na phenodol fel y gall y Mesur ddarparu fframwaith hyblyg y gallai gwahanol rannau'r diwydiant ei defnyddio fel y man pennu os oes ardoll i'w chodi. Ceir yr un hyblygrwydd o ran y man neu'r manau lle gellid casglu'r ardoll.
17. Mae'r hyblygrwydd hwn yn bwysig mewn Mesur fel hwn oherwydd fod angen i Weinidogion Cymru fod â phwerau sy'n eu galluogi i ddatblygu'r diwydiant yn unol â strategaethau tymor canolig a hirdymor sy'n seiliedig ar asesu a gwerthuso gofynion a chyfleoedd y farchnad yn y dyfodol. Mae'r amcanestyniadau hynny ynghylch y dyfodol yn rhwym o newid ac felly mae'r Mesur hwn yn amcanu datblygu'r dulliau sy'n galluogi addasu'r gefnogaeth a roddir i'r diwydiant mewn modd sy'n ymateb i'r newidiadau hynny ac sy'n eu hadlewyrchu.

Adran 5 - Yr ardollau sydd i'w codi ar gigyddwyr neu allforwyr

18. Mae'r adran hon yn gosod y fframwaith sy'n galluogi i'r trefniadau cyfredol presennol ar gyfer pennu a chasglu'r ardoll o'r man cigyddu neu o'r man lle'r allforir yn fyw ohoni barhau'n ddi-doriad neu heb ddiwygiadau mawrion.
19. Gosodir y ffordd o gyfrifo'r ardoll bresennol ac o'i thalu yn Atodlen 2.

Adran 6 – Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn ag ardollau sydd i'w gosod mewn perthynas â phersonau sy'n cyflawni gweithgaredd cynradd dynodedig neu weithgaredd eilradd dynodedig

20. Mae'r adran hon yn gosod y fframwaith sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu trefniadau o'i mewn ar gyfer penderfynu ar ardoll a'i chasglu o fannau eraill o fewn y gadwyn gyflenwi. Rhaid gwneud unrhyw drefniadau o'r fath drwy orchymyn.

Adran 7 – Dirprwyo ac is-gwmnïau

21. Mae'r adran hon yn gosod y fframwaith sy'n peri fod gan Weinidogion Cymru y pŵer o'i mewn i ddirprwyo'r cyfan o'u pwerau neu rai ohonynt i drydydd partion. Mae hefyd yn darparu'r fframwaith sy'n peri fod gan Weinidogion Cymru y pŵer o'i mewn i gaffael neu i sefydlu is-gwmnïau i gyflawni unrhyw un neu fwy o'u swyddogaethau.
22. Mae'r adran hon yn peri fod modd i Weinidogion Cymru greu a gwneud trefniadau gyda chyrrff megis Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (HCC) fel y gall HCC ymgymryd â rhai neu'r cyfan o'r dyletswyddau a chyflawni rhai neu'r cyfan o'r swyddogaethau. Mae'n darparu hyblygrwydd fel y gellid defnyddio opsiynau eraill yn y dyfodol a newid neu ddiwygio trefniadau presennol.
23. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn eglur na all Gweinidogion Cymru ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros wneud rheoliadau na gorchmynion na thros wneud cyfarwyddiadau i unrhyw un arall.

15. The terms primary and secondary activity are defined in this section in paragraph 6.
16. These definitions are given in broad rather than specific terms so that that Measure can provide a flexible framework within which different parts of the industry might be used as the point of determination for the levy to be charged. The same flexibility is given in respect of the point or points where the levy might be collected.
17. This flexibility is important in a Measure such as this because Welsh Ministers need to have powers such that they are able to develop the industry according to medium and long term strategies based on the assessment and evaluation of future market demands and opportunities. Those projections about the future are certainly going to change and so this Measure aims to provide the mechanisms through which the support to the industry can be adapted to react to and reflect those changes.

Section 5 - Levies imposed on slaughterers or exporters

18. This section sets out the framework within which the current, existing arrangements for the determination and collection of the levy at the point of slaughter or the point of live export can continue without interruption or major amendments.
19. The way in which the current levy is calculated and paid is set out in Schedule 2.

Section 6 – Power to make provision about levies imposed in respect of persons carrying out a designated primary activity or a designated secondary activity

20. This section sets out the framework within which Welsh Ministers may set arrangements for the determination and collection of levy at other points within the supply chain. Any such arrangements must be made by order.

Section 7 – Delegation and subsidiaries

21. This section sets out the framework within which Welsh Ministers have the power to be able to delegate all, some or none of their responsibilities to third parties. It also provides the framework within which Welsh Ministers have the power to be able to acquire or establish subsidiaries to carry out any of their functions.
22. This section makes it possible for Welsh Ministers to set up and enter into arrangements with bodies such as Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (HCC) such that HCC may take on some or all of the responsibilities and deliver some or all of the functions. It provides flexibility so that other options could be used in future and/or current arrangements could be changed or amended.
23. This section makes it clear that Welsh Ministers cannot delegate the responsibility for making regulations or orders nor for making directions to any one else.

Adran 8 – Datganiadau Niferoedd ac Amcangyfrifon

24. Mae'r adran hon yn gosod y trefniadau sy'n peri fod rhaid i bersonau sy'n atebol i dalu ardoll gyflwyno datganiadau sy'n nodi nifer y gwartheg, y defaid neu'r moch y gellir codi ardoll amdanynt gan roi pa wybodaeth bynnag y bernir ei bod yn ofynnol drwy gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a hynny ym mha ffurf bynnag sy'n ofynnol.
25. Mae'r adran yn darparu y gellir newid a diwygio natur, amseriad a chynnwys unrhyw ddatganiadau o'r fath yn ôl yr angen.
26. Mae hefyd yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd pan fo datganiadau niferoedd i ddod oddi wrth bersonau sy'n atebol i dalu ardoll ond nis cyflwynir ganddynt, ac mewn achos o'r fath, gellir rhoi i'r cyfryw bersonau amcangyfrif (ysgrifenedig) o'r nifer disgwylidig o anifeiliaid y bydd rhaid talu ardoll arnynt. Yna bydd ganddynt 28 o ddiwrnodau i ddarparu datganiad niferoedd iawn a chywir yn y ffurf sy'n ofynnol neu bydd rhaid iddynt dalu pa ardoll bynnag sy'n angenrheidiol ar sail yr amcangyfrif a roddwyd iddynt, onid oes esgus resymol dros fethu â gwneud.

Adran 9 – Darparu gwybodaeth

27. Mae'r adran hon yn darparu'r fframwaith sy'n ei gwneud yn ofynnol fod rhaid i bobl sy'n gorfod talu'r ardoll gadw cofnodion priodol ynghylch yr anifeiliaid y mae'r ardoll yn seiliedig arnynt ac fod rhaid iddynt ddangos y cofnodion hynny i gael eu harolygu pan ofynnir iddynt wneud hynny.
28. Mae i bobl beidio â chadw cofnodion o'r fath ac/neu iddynt fethu â dangos y cofnodion hynny pan ofynnir iddynt yn dramgwydd ac mae'r adran hon yn gosod natur y tramgwydd hwnnw a graddfa'r gosb.

Adran 10 – Arolygu

29. Mae'r adran hon yn gosod y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru dros benodi arolygwyr (y person penodedig) a gaiff fynd a gweld yr anifeiliaid, y cofnodion a'r wybodaeth am y taliad er mwyn sicrhau fod y gofyniad i roi cyfrif am yr ardoll ac i'w thalu wedi'i fodloni.

Adran 11 - Pwerau mynediad

30. Mae'r adran hon yn gosod amodau cyffredinol a phenodol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall arolygwr (y person penodedig) wneud cais am warrant er mwyn medru mynd ar dir a/neu i fangre at ddibenion gorfodi'r Mesur.

Adran 12 – Tramgwyddau a gyflawnir gan gyrff neu bartneriaethau

31. Mae'r adran hon yn gosod y fframwaith sy'n rhoi i unigolion, megis cyfarwyddwyr, rheolwyr, ysgrifenyddion neu swyddogion eraill cyrff corfforaethol megis cwmnïau cyfyngedig neu ffurfiau eraill ar endidau cyfreithiol, gyfrifoldeb personol o fewn telerau'r Mesur hwn a gellir dwyn achos yn eu herbyn os ydynt wedi cyflawni unrhyw dramgwyddau o dan y Mesur hwn.

Section 8 – Returns and Estimates

24. This section sets out the arrangements by which persons liable to pay a levy must submit returns stating the number of chargeable cattle, sheep and pigs, giving whatever information is required and in whatever format is required as might be determined by the direction of Welsh Ministers.
25. The section provides that the nature, timing and content of any such returns can be altered and amended as necessary.
26. It also provides for situations where returns are due from persons liable to pay levy but they do not submit them, in this case any such persons may be given an estimate (in writing) of the expected number of animals that levy must be paid on. They then have 28 days to provide a correct and accurate return in the required format otherwise they must pay whatever levy is necessary based on the estimate they have been given.

Section 9 – Provision of information

27. This section provides the framework that requires that people who must pay the levy must keep proper records about the animals that levy is based on and that they must produce those records for inspection when required to do so.
28. If people do not keep such records and/or fail to produce the records when asked then this is an offence and this section sets out the nature of that offence and the scale of the penalty.

Section 10 – Inspection

29. This section sets out the powers that Welsh Ministers have for the appointment of inspectors (appointed person) who can go out and check the animals, the records and the payment information to make sure that the requirement to account for and pay the levy has been met.

Section 11 - Powers of entry

30. This section sets out the general and specific conditions that need to be met before an inspector (appointed person) can apply for a warrant to enter land and/or premises for the purposes of enforcing the Measure.

Section 12 – Offences committed by bodies or partnerships

31. This section sets out the framework by which individuals such as directors, managers, secretaries or other officers of corporate bodies such as limited companies or other forms of legal entity have personal responsibility within the terms of this Measure and action may taken against them if they have committed any offences under this Measure.

32. Gosodir amodau cyffelyb ar gyfer cyrff anghorfforedig, partneriaethau a phartneriaethau Albanaidd fel ei bod yn eglur sut y byddai'r Mesur hwn yn gymwys i'r gwahanol weithredwyr o fewn cadwyn gyflenwi'r diwydiant cig coch.

Adran 13 – Cyfyngiadau amser ar gyfer dwyn achos

33. Mae'r adran hon yn gosod cyfyngiadau amser ar gyfer dwyn achos o dan y Mesur hwn, sef o fewn 6 mis i'r dyddiad y daeth tystiolaeth ddigonol i law i ddangos y gallai fod tramgwydd wedi'i gyflawni ond ni chaniateir cychwyn achos fwy na dwy flynedd ar ôl cyflawni'r tramgwydd.

Adran 14 - Diffiniadau

34. Mae'r adran hon yn diffinio'r prif dermau yn ôl yr angen yng nghyd-destun y Mesur hwn.

Adran 15 – Diddymu Bwrdd Ardollau Cymru

35. Mae'r adran hon yn darparu'r pwerau a fydd yn diddymu Bwrdd Ardollau Cymru. Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Bwrdd Ardollau Cymru a grëwyd o dan delerau'r Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig a Gorchymyn Bwrdd Ardollau Cymru at y dibenion o osod, codi a gwario arian ardollau a godwyd oddi wrth ddiwydiant cig coch Cymru.

Adran 16 – Cyfarwyddiadau

36. Y cyfan a ddywedir yn yr adran hon yw fod rhaid o dan y Mesur hwn i unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru fod wedi'u rhoi yn ysgrifenedig ond fod modd eu hamrywio neu eu dirymu drwy unrhyw gyfarwyddyd diweddarach.

Adran 17 – Gorchmynion a rheoliadau

37. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r pwerau i wneud gorchmynion a rheoliadau o dan y Mesur. Mae'r pwerau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefnau penderfyniad negyddol, ac eithrio unrhyw orchymyn a wneir o dan adrannau 3(3), 4(4) a 5), 5(4) a 6(3) sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Adran 18 – Cychwyn

38. Mae'r adran hon yn gosod pa bryd y mae'r pwerau o dan y Mesur hwn yn dod i rym.

Adran 19 – Enw Byr

39. Y disgrifiad byr o'r Mesur yw Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010.

Atodlen 1

40. Mae'r Atodlen hon yn rhoi disgrifiad ac eglurhad manwl o natur y gweithgareddau y gellir ymgymryd â hwy at ddibenion datblygu a hybu'r diwydiant cig coch.

32. Similar conditions are set out for incorporated bodies, partnerships and Scottish partnerships so that it is clear how this Measure would apply to the different operators within the red meat industry supply chain.

Section 13 – Time limits for bringing proceedings

33. This section sets time limits for bringing proceedings under this Measure which are within 6 months of the date at which there is sufficient evidence to that an offence may have been committed but proceedings cannot be started more than 2 years after the date on which the offence was committed.

Section 14 - Definitions

34. This section defines the main terms as necessary within the context of this Measure.

Section 15 – Dissolution of the Welsh Levy Board

35. This section provides the powers by which the Welsh Levy Board will be abolished. The Welsh Levy Board is an Assembly Sponsored Public Body set up under the terms of the NERC Act and the Welsh Levy Board Order for the purposes of setting, raising and spending levy monies raised from the Welsh red meat industry.

Section 16 – Directions

36. This section simply states that under this Measure any directions given by Welsh Ministers must be given in writing but that they may be varied or revoked by any later direction.

Section 17 – Orders and regulations

37. This section makes provision relating to the order and regulation making powers under the Measure. These powers are subject to negative resolution procedures, with the exception of any order made under sections 3(3), 4(4) and (5), 5(4) and 6(3) which are subject to affirmative procedure.

Section 18 – Commencement

38. This section sets out when the powers under this Measure come into force.

Section 19 – Short title

39. The short description of the Measure is Red Meat Industry (Wales) Measure 2010.

Schedule 1

40. This Schedule gives a detailed description and explanation of the nature of the activities that can be undertaken for the purposes of developing and promoting the red meat industry.

Atodlen 2

41. Mae'r Atodlen hon yn egluro sut y cyfrifir yr ardoll a sut y'i telir gan gigyddwyr ac allforwyr.

COFNOD O'R TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cam o daith y Mesur drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

| | |
|---|-----------------|
| Cyflwynwyd | 19 Hydref 2009 |
| Cyfnod 1 - Dadl | 12 Ionawr 2010 |
| Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y diwygiadau | 3 Chwefror 2010 |
| Cyfnod 3 Dadl | 10 Mawrth 2010 |
| Cyfnod 4 Dadl | 10 Mawrth 2010 |
| Cymeradwyaeth Frenhinol yn y Cyfrin Gyngor | 11 Mai 2010 |

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Schedule 2

41. This Schedule explains how the levy is calculated and paid by slaughterers and exporters.

RECORD OF PROCEEDINGS IN NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

The following table sets out the dates for each stage of the Measure's passage through the National Assembly for Wales.

| | |
|--|-----------------|
| Introduced | 19 October 2009 |
| Stage 1 - Debate | 12 January 2010 |
| Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments | 3 February 2010 |
| Stage 3 Debate | 10 March 2010 |
| Stage 4 Debate | 10 March 2010 |
| Royal Approval in Council | 11 May 2010 |

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

Cyhoeddwyd gan (The Stationery Office)
ac mae ar gael oddi wrth:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion / ymholiadau ffôn 0870 600 5522
Archebion ffacs 0870 600 5533
book.orders@theso.co.uk
<http://www.ukstate.com>

Siopau Llyfrau The Stationery Office
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401

The Parliamentary Bookshop
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion dros y ffôn/ Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Gwefan: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO @ Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office)
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
General enquiries: 0870 600 5522
Order through the Parliamentary Hotline *Lo-call* 0845 7 023474
Fax orders: 0870 600 5533
E-mail: customer.service@tso.co.uk
Textphone: 0870 240 3701

TSO Shops
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Fax 028 9023 5401

The Parliamentary Bookshop
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Telephone orders/General enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: bookshop@parliament.uk
Internet: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO @ Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-10514-8



9 780348 105148